| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR CRAFFU CYMUNEDAU |
| **DYDDIAD** | 18 Ebrill 2024 |
| **TEITL** | Eitemau'r Cyfarfod Nesaf |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | I gadarnhau'r eitemau i'w craffu yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Mai 2024 |
| **AWDUR** | Bethan Adams, Ymgynghorydd Craffu |

1. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 22 Chwefror 2024, cytunwyd y byddai'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd yn eu cyfarfodydd cyswllt gyda'r Penaethiaid ac Aelodau Cabinet perthnasol, yn adnabod eitemau i'w trafod ynghyd â'r eitem 'Cyfarwyddyd Erthygl 4 - Ymgynghoriad Cyhoeddus' yng nghyfarfod 16 Mai 2024.

2. Adnabuwyd yn y cyfarfodydd cyswllt un eitem ychwanegol i'w drafod yng nghyfarfod mis Mai, sef 'Clwyf Gwywiad yr Onnen'.

3. Mae'r mater wedi ei gynnwys ar gofrestr risg yr Adran Priffyrdd, Peirianneg a YGC. Mae gan y Cyngor raglen waith i adnabod Clwyf Gwywiad yr Onnen mewn coed ac i'w drin. Gellid craffu:

   - Maint y broblem a'r cynnydd a wnaed o ran Clwyf Gwywiad yr Onnen.
   - Y gost o ddelio â'r clwyf hyd yn hyn a'r costau a ragwelir i'r dyfodol.

4. Bydd cyfle i aelodau'r Pwyllgor flaenoriaethu eitemau i'w craffu ar gyfer y pedwar cyfarfod arall yn 2024/25 yn y Gweithdy Blynyddol.

5. **Gofynnir i'r Pwyllgor Craffu Cymunedau gadarnhau'r eitemau i'w craffu yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 16 Mai 2024.**